
Rhif: **WG24306**

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Communities, Equality and Local Government Committee
CELG(4)-12-15 Papur 8 Atodiad 4 / Paper 8 Annexe 4

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru



Llywodraeth Cymru

# Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Dogfen ategol i'w hystyried

## Drafft

## Rheoli Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru – Canllawiau Statudol

Drafft yw'r ddogfen hon sydd wedi ei pharatoi i gyd-fynd â Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru). Nod y ddogfen yw rhoi dealltwriaeth i Aelodau'r Cynulliad, rhanddeiliaid a'r cyhoedd o'r polisi, y cyngor a'r canllawiau a fydd yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth.

Mae rhai adrannau o'r ddogfen hon yn ddibynnol ar ddarpariaethau Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) fel y'i cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Mai 2015. Mae'n bosibl, felly, y caiff y ddogfen ei newid ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol graffu ar y Bil ac yn sgil unrhyw ddiwygiadau canlyniadol i'r darpariaethau deddfwriaethol. Yn dilyn y newidiadau hynny, caiff ymgynghoriad cyhoeddus llawn ei gynnal ar y ddogfen cyn iddi gael ei chyhoeddi. Mae'n debyg y caiff yr ymgynghoriad hwnnw ei gynnal yn 2016.

1 Mai 2015

# Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru

## Canllawiau Statudol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru



RHEOLI

DRAFFT

Mai 2015

Cadw

# Datganiad o Ddiben

*Mae Pont Grog y Borth yn strwythur rhestredig gradd II.*



© Hawlfraint y Goron (2015), Cadw, Llywodraeth Cymru

Canllawiau statudol yw *Rheoli Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol* sy'n esbonio sut mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol lunio a diweddaru cofnodion amgylchedd hanesyddol a darparu mynediad iddynt. Mae hefyd yn nodi safonau a meincnodau ar gyfer cynnwys a chwmpas, safonau data, mynediad cyhoeddus ac ymgysylltu â'r cyhoedd, darparu gwasanaethau ac archwilio mewn perthynas â chofnodion amgylchedd hanesyddol.

Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried y canllawiau statudol hyn, a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan y pwerau yn adran 36 o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru),[1] a dim ond os gallant gyfiawnhau gwneud hynny y byddant yn gallu gwyro oddi wrthynt.

Mae Adrannau 33 a 34 o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru lunio a diweddaru cofnod amgylchedd hanesyddol sydd ar gael i'r cyhoedd.[2]

Mae Adran 35 o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn galluogi awdurdodau cynllunio lleol i ddewis llunio, rheoli a chynnal eu cofnod amgylchedd hanesyddol eu hunain neu gyflawni eu swyddogaethau drwy unigolyn neu sefydliad arall, naill ai'n unigol neu ar y cyd ag awdurdod cynllunio lleol arall.[3]

Mae Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yn darparu gwybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru er budd y cyhoedd ac i'w defnyddio ganddo. Maent yn chwarae rôl allweddol yn y broses gynllunio fel y sail dystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau ac yn ategu polisi amgylchedd hanesyddol a chyngor a roddir drwy *Bolisi Cynllunio Cymru*, Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol a Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol.

# Cynnwys

*Tai gweithwyr haearn, sy'n rhestredig gradd II, yn Forge Row, Cwmafon. Dyma'r enghraifft orau o dai teras diwydiannol sydd wedi goroesi yn eu lleoliad gwreiddiol.*



© Hawlfraint y Goron (2015), Cadw, Llywodraeth Cymru


**Cyflwyniad** 2

**1. Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol** 3

- 1.1 Beth yw Cofnod Amgylchedd Hanesyddol? 3
- 1.2 Ar gyfer Beth y Defnyddir Cofnod Amgylchedd Hanesyddol? 4
- 1.3 Beth yw Perthynas Cofnod Amgylchedd Hanesyddol â Chofnodion Eraill? 4

**2. Rolau a Chyfrifoldebau** 5

- 2.1 Awdurdodau Cynllunio Lleol 5
- 2.2 Llywodraeth Cymru 6
- 2.3 Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru 6

**3. Cynnwys a Chwmpas** 7

- 3.1 Cynnwys 7
- 3.2. Terfynau Amser 12
- 3.3 Terfynau Daearyddol 12
- 3.4 Sicrhau bod Cynnwys y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol yn Gyfredol 12
- 3.5 Casgliadau Cyfeirio Ategol 13
- 3.6 Adneuo Deunydd Archif Sylfaenol 13

**4. Safonau Data** 14

- 4.1 Cydymffurfio â Safonau Data Cenedlaethol y DU 14
- 4.2 Rhannu Data 14

**5. Mynediad Cyhoeddus ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd** 15

**6. Darparu Gwasanaethau** 16

- 6.1 Cynlluniau, Polisïau a Gwasanaethau 16
- 6.2 Staff 16
- 6.3 Seilwaith 16

**7. Codi Ffioedd** 17

**8. Cydymffurfiaeth** 18

**Atodiadau** 19

- 1 Gwasanaethau Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru 19
- 2 Safonau a Meincnodau Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol 20

**Cyfeiriadau** 24

**Gwybodaeth Bellach** 25

**Cysylltiadau** 25


Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyflwyniad

*Mae amgylchedd hanesyddol Cymru wedi'i lunio gan genedlaethau'r gorffennol. Mae'n dangos i ni o ble rydym wedi dod ac mae'n gwella ansawdd ein bywydau. Mae'r hanes sydd o'n cwmpas yn helpu i'n diffinio fel cenedl. Mae'r amgylchedd hanesyddol hefyd yn fregus; mae pen draw iddo fel adnodd. Mae ein huchelgais i warchod a rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn effeithiol yn ddibynnol ar gael gwybodaeth awdurdodol o safon.*

*Mae siambr gladdu Cors y Gedol yn heneb gofrestredig. Ystyrir ei bod o bwysigrwydd cenedlaethol gan ei bod yn ehangu ein gwybodaeth am arferion claddu a defodau cynhanesyddol.*



© Hawlfraint y Goron (2015), Cadw, Llywodraeth Cymru

O dan ddarpariaethau Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru),[4] mae'n rhaid i bob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru lunio a diweddaru cofnod amgylchedd hanesyddol (CAH) ar gyfer ei ardal weinyddol. Mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol hefyd sicrhau bod ei CAH ar gael i'r cyhoedd a rhoi cyngor a chymorth i'r rhai sydd am gael gafael ar y wybodaeth a geir ynddo a'i deall.

Mae Adran 35 o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), yn galluogi awdurdodau cynllunio lleol i ddewis llunio, rheoli a chynnal eu cofnod amgylchedd hanesyddol eu hunain neu gyflawni eu swyddogaethau drwy unigolyn neu sefydliad arall, naill ai'n unigol neu ar y cyd ag awdurdod cynllunio lleol arall.

Mae'r canllawiau hyn yn esbonio rôl a chyfrifoldebau awdurdodau cynllunio lleol, Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) o ran CAHau. Maent hefyd yn nodi safonau a meincnodau ar gyfer cynnwys a chwmpas, safonau data, mynediad cyhoeddus ac ymgysylltu â'r cyhoedd, darparu gwasanaethau ac archwilio mewn perthynas â'r cofnodion amgylchedd hanesyddol.

Nid yw'r canllawiau hyn yn ymdrin ag agweddau cysylltiedig ar weithgarwch rheoli gwybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol a gyflawnir gan awdurdodau cynllunio lleol, megis cofnodi prosesau busnes mewn systemau cefn swyddfa yn systematig — gan gynnwys trafodaethau cyn ymgeisio, ceisiadau am gydsyniad a chamau gorfodi. Ac nid ydynt yn gymwys ychwaith i gofnodion sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol a ddatblygwyd gan dirfeddianwyr mawr, megis Ystadau Amddiffyn neu'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, neu gyrff eraill.

# 1. Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol

## 1.1 Beth yw Cofnod Amgylchedd Hanesyddol?

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cynnwys pob agwedd ar yr ardal o'n hamgylch a adeiladwyd, a ffurfiwyd neu y dylanwadwyd arni gan weithgareddau dynol o'r cyfnodau cynharaf i'r cyfnodau mwyaf diweddar. Storfa gwybodaeth wedi'i threfnu'n systematig yw CAH am yr amgylchedd hanesyddol mewn ardal benodol ac mae ar gael i bawb. Caiff ei chynnal a'i diweddaru er budd y cyhoedd.

Mae CAHau yn cynnwys gwybodaeth ac yn cyfeirio at wybodaeth am dirweddau, adeiladau, safleoedd archeolegol a darganfyddiadau hanesyddol. Maent hefyd yn cynnwys cofnodion pobl sy'n ymwneud ag ymchwilio i'r amgylchedd hanesyddol, ffynonellau gwybodaeth am eu hardaloedd a'r broses rheoli cadwraeth. Mae cynnwys CAHau yn ffrwyth degawdau o weithgarwch casglu a choladu gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys cofnodion cynnar yr Arolwg Ordnans, Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru (a gynhelir gan CBHC), amgueddfeydd, archifdai a llyfrgelloedd. Maent hefyd yn cynnwys gwybodaeth gan y cyhoedd a chanlyniadau gwaith maes archeolegol.

Mae CAH yn cynnwys cronfa ddata ddigidol sydd wedi'i chysylltu â system gwybodaeth ddaearyddol (GIS) a ategir gan ddeunydd cyfeirio cysylltiedig. Gall deunydd cyfeirio fod ar ffurf ddigidol neu bapur a chynnwys ffotograffau a dynnwyd o'r awyr, copïau o fapiau cynnar ac adroddiadau hynafiaethwyr, astudiaethau o nodweddion, llenyddiaeth 'lwyd' nas cyhoeddwyd a llyfrgell gyfeirio sy'n cynnwys ffynonellau eilaidd.

Mae CAH yn adnodd deinamig sy'n datblygu drwy'r amser y mae angen ei gynnal ac ychwanegu ato yn barhaus wrth i wybodaeth newydd am yr amgylchedd hanesyddol ddod i law. Felly, ni all CAH byth fod yn gofnod diffiniol. Mae angen neilltuo adnodd staffio penodol â chymwysterau priodol i gynnal y CAH a sicrhau y gall y cyhoedd ei ddefnyddio.

Darperir y cynnwys sylfaenol sy'n ofynnol gan CAH, fel y'i nodir ym Mil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru),[5] yn adran 3.1.

*Mae cloddiad archaeolegol yn ffynhonnell o wybodaeth a ddylai gael ei chadw yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol.*



© Hawlfraint Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed

## 1.2 Ar gyfer Beth y Defnyddir Cofnod Amgylchedd Hanesyddol?

Mae gwasanaethau CAHau yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael am amgylchedd hanesyddol Cymru er budd y cyhoedd ac yn cyflawni amrywiaeth eang o swyddogaethau sy'n cynnwys y canlynol:

- gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o'r amgylchedd hanesyddol
- helpu i gadw, rheoli a gwarchod yr amgylchedd hanesyddol
- llywio polisïau strategol a chynlluniau datblygu lleol
- llywio penderfyniadau ynghylch rheoli datblygu
- cefnogi mentrau adfywio a arweinir gan dreftadaeth, mentrau i wella'r amgylchedd a mentrau twristiaeth ddiwylliannol
- cyfrannu at addysg a chynhwysiant cymdeithasol
- annog y cyhoedd i fynd ati i ddarganfod treftadaeth leol, a'i gwerthfawrogi a'i mwynhau.

Yng Nghymru, mae CAHau wedi datblygu o'r cofnodion o safleoedd a henebion a sefydlwyd yn y 1970au gan bedair ymddiriedolaeth archeolegol Cymru er mwyn cynorthwyo eu rhaglenni gwaith eu hunain a rhoi gwybodaeth a chyngor archeolegol i berchenogion, datblygwyr, cynllunwyr a rhanddeiliaid eraill. Ceir trosolwg o wasanaethau CAHau yng Nghymru yn Atodiad 1.

*Gall y cofnod amgylchedd hanesyddol helpu gydag addysg a chynhwysiant cymdeithasol.*



© Hawlfraint y Goron (2015), Cadw, Llywodraeth Cymru

## 1.3 Beth yw Perthynas Cofnod Amgylchedd Hanesyddol â Chofnodion Eraill?

Yn ogystal â CAHau, ceir ffynonellau eraill o wybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol. Yn genedlaethol, Llywodraeth Cymru yw'r brif ffynhonnell ar gyfer cofnodion sy'n ymwneud â henebion ac adeiladau sydd yng ngofal y wladwriaeth ac asedau hanesyddol dynodedig sydd o bwys cenedlaethol gan gynnwys adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, llongddrylliadau dynodedig a pharciau a gerddi hanesyddol cofrestredig. Gall y cyhoedd gael gafael ar ddata wedi'u mapio a data disgrifiadau ar gyfer yr asedau hanesyddol hyn drwy wasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, sef Cadw.[6]

Mae CBHC yn cynnal Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, sef yr archif genedlaethol ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae Coflein yn darparu mynediad cyhoeddus ar-lein i Gofnod Henebion Cenedlaethol Cymru.[7] Mae CBHC hefyd yn cynnal ac yn datblygu porth Cymru Hanesyddol[8] fel porth ar-lein i'r cofnodion cenedlaethol a rhanbarthol ac yn curadu'r cofnod morol ar gyfer dyfroedd tiriogaethol Cymru.

Mae Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac amgueddfeydd rhanbarthol a lleol yn cadw cofnodion sy'n ymwneud â'r darganfyddiadau archeolegol a'r casgliadau hanesyddol sydd yn eu gofal.

Mae Fframwaith ar gyfer Cofnodion sy'n Ymwneud ag Amgylchedd Hanesyddol Cymru wedi'i sefydlu rhwng prif ddeiliaid (a restrir uchod) cofnodion o'r fath er mwyn sicrhau cydweithrediad rhyngddynt ac y caiff data eu rhannu.

*Mae Castell Dolbadarn yn heneb gofrestredig y mae Cadw'n gofalu amdani'n uniongyrchol, ar ran Llywodraeth Cymru.*



© Hawlfraint y Goron (2015), Cadw, Llywodraeth Cymru

# 2. Rolau a Chyfrifoldebau

## 2.1 Awdurdodau Cynllunio Lleol

O dan adran 33 o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), mae gan awdurdodau cynllunio lleol ddyletswydd i lunio a diweddaru CAH sydd ar gael i'r cyhoedd ar gyfer eu hardaloedd gweinyddol.[9] Mae'n rhaid rhoi cyngor a chymorth i'r rhai sydd am gael gafael ar y wybodaeth a geir mewn CAHau a'i deall. Disgwylir i CAHau gyrraedd y safonau a nodir yn y canllawiau hyn (gweler Atodiad 2).

Gall awdurdodau cynllunio lleol ddewis:

- llunio, rheoli a chynnal eu CAH eu hunain neu
- gweithio gydag awdurdodau cynllunio lleol eraill er mwyn creu, rheoli a chynnal CAH ar y cyd neu
- cyflawni eu swyddogaethau drwy fabwysiadu a chefnogi CAH a ddatblygwyd ac a gynhelir gan drydydd parti. Gallant wneud hyn ar eu pen eu hunain neu ar y cyd ag awdurdodau cynllunio eraill.

Os bydd awdurdod cynllunio lleol yn penderfynu cyflawni ei swyddogaethau naill ai ar y cyd ag awdurdod arall neu drwy drydydd parti bydd yn rhaid iddo lunio cytundeb ffurfiol â'r awdurdod neu'r trydydd parti hwnnw a chael caniatâd ysgrifenedig Gweinidogion Cymru. Felly, mae'n rhaid ymgynghori â Gweinidogion Cymru yn gynnar (ynghyd â darpar ddarparwr y gwasanaeth). Wrth ystyried rhoi caniatâd o'r fath, bydd Gweinidogion Cymru yn cyfeirio at y safonau a nodir yn y canllawiau hyn.

Mae'n rhaid i wasanaethau CAHau awdurdodau cynllunio lleol, neu'r darparwr gwasanaethau a ddewiswyd ganddynt, gyrraedd y safonau a nodir yn y canllawiau hyn. Caiff holl CAHau awdurdodau cynllunio lleol (gan gynnwys y rhai a gynhelir gan drydydd parti) eu harchwilio gan CBHC (gweler adran 2.3).

Pan gaiff swyddogaethau awdurdodau cynllunio lleol o ran CAHau eu cyflawni gan drydydd parti, yr awdurdod cynllunio lleol fydd yn gyfrifol o hyd am yr hyn a wneir (neu nas gwneir), fel y diogelir atebolrwydd democrataidd a rhwymedïau arferol cyfraith gyhoeddus.

Yn hanesyddol, nododd Cylchlythyr 60/96 y Swyddfa Gymreig (Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol) y dylai awdurdodau cynllunio lleol sydd heb eu staff archeolegol a'u cofnodion safleoedd a henebion eu hunain wneud defnydd llawn o arbenigedd Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru wrth reoli datblygiadau a chynghori ar gynllunio, os oes modd drwy fabwysiadu'r Cofnodion Safleoedd a Henebion rhanbarthol a gynhelir gan yr Ymddiriedolaethau yn ffurfiol.

Yn ymarferol, mae pob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru wedi mabwysiadu'r pedwar CAH rhanbarthol, sef y term a ddefnyddir ar gyfer y cofnodion safleoedd a henebion. Fe'u cynhelir gan ymddiriedolaethau archeolegol Cymru drwy femoranda cyd-ddealltwriaeth rhwng y partïon.

*Mae Capel Jerwsalem, Bethesda, yn rhestredig gradd I; mae'r tu mewn, a'i fanylder cywrain, yn ddiddorol iawn.*



© Hawlfraint y Goron, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

## 2.2. Llywodraeth Cymru

O dan ddarpariaethau Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru),[10] gall Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar gyfer CAHau ond mae'n ofynnol iddynt ymgynghori â phob awdurdod cynllunio lleol a'r cyfryw unigolion neu sefydliadau eraill a ystyriant yn briodol.

Bydd Gweinidogion Cymru yn monitro awdurdodau cynllunio lleol er mwyn sicrhau bod eu dyletswyddau o ran gwasanaethau CAHau yn cael eu cyflawni'n effeithiol drwy adolygu gwasanaethau yn erbyn y safonau a nodir yn y canllawiau hyn. Os na fydd awdurdod cynllunio lleol yn darparu ei wasanaethau CAH yn foddhaol, bydd Gweinidog Cymru yn gweithio gyda'r awdurdod cynllunio lleol, a darparwr y gwasanaeth CAH os yw'n gymwys, er mwyn cytuno ar gynllun i unioni diffygion.

*Mae Goleudy'r Parlwr Du yn rhestredig gradd II. Mae'n enghraifft dda o oleudy cynnar.*



© Hawlfraint y Goron (2015), Cadw, Llywodraeth Cymru

## 2.3 Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC)

Sefydlwyd CBHC[11] yn 1908 ac ar hyn o bryd mae ei rôl a'i gyfrifoldebau yn deillio o Warant Brenhinol 2000. Mae'n gweithio fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n cael ei gyllid craidd gan Lywodraeth Cymru. Ers 1964 bu CBHC yn gyfrifol am guradu Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru.

Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru yw'r archif a'r rhestr eiddo genedlaethol ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru, ochr yn ochr ag archifau tebyg yn Lloegr a'r Alban. Mae'n cadw cofnodion a gasglwyd drwy weithgareddau ymchwiliol CBHC yn ogystal â chofnodion a gyfrannwyd gan amrywiaeth eang o sefydliadau ac unigolion preifat eraill.

O dan ei drefniadau gweithredol gyda Llywodraeth Cymru, bu CBHC yn gyfrifol am oruchwylio cofnodion sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. Ar ran Llywodraeth Cymru, bydd CBHC yn monitro safonau a lefelau gwasanaeth pob CAH a fabwysiadwyd gan awdurdodau cynllunio drwy gydgysylltu a dilysu archwiliadau bob pum mlynedd er mwyn adolygu ansawdd data, dangos perfformiad yn erbyn pob un o'r dangosyddion a nodi anghenion o ran gwella. Dylid cyhoeddi crynodeb o'r archwiliad ar wefan y CAH.

*Mae Pencae, ger y Rhiw, yn rhestredig gradd II; mae'r bwthyn a'r beudy yn nodweddiadol o'r ardal.*



© Hawlfraint y Goron (2015), Cadw, Llywodraeth Cymru

# 3. Cynnwys a Chwmpas

## 3.1 Cynnwys

Mae'r adran hon yn rhoi rhestr o'r hyn y disgwylir i CAHau ei gynnwys o dan adran 33 o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)[12] ac yn esbonio'r gofynion sylfaenol ar gyfer pob un o'r categorïau hyn.

**(a) Manylion pob adeilad yn ardal yr awdurdod cynllunio lleol mewn rhestr a luniwyd neu a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 1 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (cym. 9).**[13]

*Mae Tŷ Penarth, ger y Drenewydd ym Mhowys, yn adeilad rhestredig gradd II.*



© Hawlfraint y Goron, Cadw, Llywodraeth Cymru

**(b) Manylion pob ardal yn ardal yr awdurdod cynllunio lleol sydd wedi'i dynodi'n ardal gadwraeth o dan adran 69 o'r Ddeddf honno.**[14]

*Mae rhan o dref Dolgellau wedi ei dynodi'n ardal gadwraeth.*



© Hawlfraint y Goron (2015), Cadw, Llywodraeth Cymru

**(c) Manylion pob heneb yn ardal yr awdurdod cynllunio lleol a nodir yn y Gofrestr a luniwyd ac a gynhelir gan Weinidogion Cymru o dan adran 1 o Ddeddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979 (cym. 46).**[15]

*Mae'r amddiffynfeydd gwrth-danciau o'r Ail Ryfel Byd ar draeth Fairbourne, Gwynedd, wedi'u cofrestru fel heneb o bwysigrwydd cenedlaethol.*



© Hawlfraint y Goron (2015), Cadw, Llywodraeth Cymru

**(ch) Manylion pob un o'r tiroedd yn ardal yr awdurdod cynllunio lleol a nodir yn y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol a luniwyd ac a gynhelir gan Weinidogion Cymru o dan adran 41A o'r Ddeddf honno.[16]**



*Mae'r gerddi yn Aberglasne wedi'u cynnwys ar y Gofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol fel safle gradd II.*

© Hawlfraint y Goron (2015), Cadw, Llywodraeth Cymru

## Asedau hanesyddol a warchodir yn statudol neu sydd wedi'u cofrestru o dan Ddeddf 1979 neu Ddeddf 1990 (a-d)

Cadw, ar ran Gweinidogion Cymru, sy'n gyfrifol am nodi a dynodi adeiladau rhestredig (a), henebion cofrestredig (c), a pharciau a gerddi hanesyddol cofrestredig (ch). Rheolir y rhestrau diffiniol a chyfredol o bob un o'r categorïau hyn o ased hanesyddol gan Cadw. Mae'n rhaid i'r CAH gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am bob un o'r grwpiau hyn o asedau sy'n berthnasol i ardal yr awdurdod cynllunio lleol, pan gânt eu darparu gan Cadw, ynghyd â dolenni i'r gronfa ddata ar-lein a reolir gan Cadw.

Yr awdurdodau cynllunio lleol sy'n gyfrifol am ddiffinio a dynodi ardaloedd cadwraeth (b). Mae'n rhaid cynnwys manylion o fewn CAH yr awdurdod cynllunio lleol.

**(d) Manylion pob safle gwrthdaro yn ardal yr awdurdod cynllunio lleol yr ystyria'r awdurdod ei fod o ddiddordeb hanesyddol.**



*Credir bod brwydr Bryn Glas, yn ystod gwrthryfel Owain Glyndŵr , wedi digwydd yma ym Mhyllalai, Powys.*

© Hawlfraint y Goron (2015), Cadw, Llywodraeth Cymru

## Safleoedd gwrthdaro (d)

Mae Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn diffinio 'safle gwrthdaro' fel maes brwydr neu safle lle y digwyddodd rhyw wrthdaro arall a oedd yn cynnwys lluoedd milwrol, neu safle lle y digwyddodd gweithgareddau arwyddocaol a oedd yn ymwneud â brwydr neu wrthdaro arall o'r fath.[17]

Mae CBHC wrthi'n llunio rhestr o feysydd brwydrau hanesyddol yng Nghymru. Mae'n rhaid i'r CAH gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am yr eitemau sydd wedi'u cofnodi ar y rhestr hon sy'n berthnasol i ardal yr awdurdod cynllunio lleol, pan gânt eu darparu gan CBHC, ynghyd â dolenni i'r gronfa ddata ar-lein a gynhelir gan CBHC.

**(dd) Pan fo awdurdod cynllunio (ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag unigolion eraill) yn cynnal rhestr o dirweddau hanesyddol yng Nghymru, manylion pob tirwedd hanesyddol yn ardal yr awdurdod cynllunio lleol a nodir ar y rhestr.**



*Mae'r drefn hanesyddol hon ar gaeau yn Rhosili ar Benrhyn Gŵyr wedi'i chofnodi fel tirwedd hanesyddol.*

© Hawlfraint y Goron, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

## Tirweddau Hanesyddol (dd)

Mae cofrestr o dirweddau hanesyddol wedi'i llunio ar y cyd gan Cadw, ICOMOS (UK) a Chyngor Cefn Gwlad Cymru (sydd bellach yn rhan o Cyfoeth Naturiol Cymru).[18]

Mae ymddiriedolaethau archeolegol Cymru wedi gwneud gwaith manwl i ddisgrifio nodweddion y tirweddau hanesyddol cofrestredig hyn. Mae'n rhaid i'r CAH gynnwys manylion pob un o'r tirweddau hanesyddol cofrestredig sy'n berthnasol i ardal yr awdurdod cynllunio lleol, ynghyd â manylion y gwaith disgrifio cysylltiedig, a dolenni i'r cronfeydd data ar-lein a gynhelir gan ymddiriedolaethau archeolegol Cymru.

**(e) Manylion pob Safle Treftadaeth y Byd yn ardal yr awdurdod cynllunio lleol.**



*Mae Castell Conwy a muriau'r dref yn un o'r pedwar safle sydd yn Safle Treftadaeth y Byd: Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd.*

© Hawlfraint y Goron (2015), Cadw, Llywodraeth Cymru

## Safleoedd Treftadaeth y Byd (e)

Mae'n rhaid i'r CAH gynnwys manylion pob rhan o Safle Treftadaeth y Byd sy'n berthnasol i ardal yr awdurdod cynllunio lleol. Dylai'r CAH ddarparu dolen i'r cynllun rheoli diweddaraf ar gyfer y Safle Treftadaeth y Byd ac unrhyw ganllawiau cynllunio ategol cysylltiedig, perthnasol.

**(f) Manylion pob ardal neu safle arall neu bob lle arall yn ardal yr awdurdod cynllunio lleol yr ystyria'r awdurdod ei bod/fod o ddiddordeb hanesyddol, archeolegol neu bensaernïol.**




*Mae llawer o gofebion rhyfel yn bwysig i gymunedau lleol. Mae'r Neuadd Goffa yn y Barri wedi cael cydnabyddiaeth fel adeilad pwysig yn lleol.*

© Hawlfraint y Goron, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

## Safleoedd eraill o ddiddordeb hanesyddol, archeolegol neu bensaernïol (f)

Nid yw'r rhan fwyaf o'r asedau hanesyddol yn ardal awdurdod cynllunio lleol yn cael eu gwarchod yn statudol. Fodd bynnag, maent oll yn cyfrannu i ryw raddau at ei diddordeb hanesyddol, archeolegol neu bensaernïol.

Gallai eitemau a gofnodir ar y CAH gynnwys safleoedd archeolegol anghofrestredig, adeiladau hanesyddol neu strwythurau anrhestredig, parciau a gerddi hanesyddol, meysydd brwydrau a thirweddau nad ydynt yn ymddangos ar y cofrestrau neu'r rhestrau perthnasol, neu leoliadau sy'n cynnwys tystiolaeth baleo-amgylcheddol bwysig. Gallent hefyd gynnwys lleoliadau nad oes ganddynt unrhyw dystiolaeth ffisegol weladwy, ond a allai fod yn gysylltiedig â chyfeiriadau hanesyddol, teipograffyddol neu ddogfennol, enw lle neu arteffact archeolegol a ddarganfuwyd.

Mae rhai awdurdodau cynllunio lleol yn cynnal rhestrau o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig. Os oes rhestr o'r fath yn bodoli, mae'n rhaid i'r CAH gynnwys manylion diweddaraf pob eitem a gofnodir ar restr o'r fath.

Yn achos awdurdod cynllunio lleol arfordirol, y mae ei ardal yn cynnwys rhan o'r forlan, gall y CAH gynnwys unrhyw dreftadaeth forol yr ystyria'r awdurdod cynllunio lleol ei bod o ddiddordeb hanesyddol, archeolegol neu bensaernïol. Dylai'r CAH gynnwys dolen briodol i gofnod morwrol Cymru ar-lein a gynhelir gan CBHC, sy'n cynnwys safleoedd llongddrylliadau ac ardaloedd â photensial archeolegol mawr (gweler adran 3.3).

**(ff) Gwybodaeth am y ffordd y mae datblygiad hanesyddol, archeolegol neu bensaernïol ardal yr awdurdod cynllunio lleol neu unrhyw ran ohoni wedi cyfrannu at gymeriad presennol yr ardal neu ran ohoni ac am sut y gellir diogelu'r cymeriad hwnnw.**



*Mae cymeriad hanesyddol canol tref Merthyr Tudful wedi ei siapio gan y diwydiannau haearn a glo lleol.*

© Hawlfraint y Goron, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

## Cymeriad Hanesyddol (ff)

Mae'n rhaid i'r CAH gynnwys unrhyw waith sydd wedi'i wneud i ddisgrifio nodweddion tirwedd hanesyddol (gweler (dd) uchod hefyd), ond hefyd unrhyw waith disgrifio nodweddion sydd wedi'i wneud mewn amgylcheddau treflun neu amgylcheddau morlun.

**(g) Manylion ymchwiliadau perthnasol a gynhaliwyd yn ardal yr awdurdod cynllunio lleol a chanfyddiadau'r ymchwiliadau hynny.**



*Gall archwilio ddigwydd ar sawl ffurf: mae'n debyg bod yr olion troed hyn ar Wastadoedd Gwent tua 7,500 mlwydd oed.*

© Hawlfraint, Amgueddfa Genedlaethol Cymru

## Ymchwiliadau perthnasol (g)

Mae'n rhaid i'r CAH gynnwys manylion gwaith ymchwilio hanesyddol neu archeolegol sydd wedi'i wneud yn ardal yr awdurdod cynllunio lleol gan gynnwys canfyddiadau'r ymchwiliadau hynny. Gallai ymchwiliadau o'r fath gynnwys asesiadau desg, gwaith dadansoddi hanesyddol, arolygon topograffig neu geoffisegol archeolegol ac ymyriadau archeolegol (gan gynnwys gweithgarwch casglu arteffactau arwyneb, cloddio tyllau arbrofol, cloddio ffosydd arbrofol, gwaith cloddio archeolegol a gwaith samplu paleo-amgylcheddol).

*Mae Castell Cricieth yn heneb gofrestredig o bwysigrwydd cenedlaethol sydd yng ngofal Cadw, ar ran Llywodraeth Cymru.*



© Hawlfraint y Goron (2015), Cadw, Llywodraeth Cymru

Mae'n rhaid i gynnwys CAH gael ei gofnodi mewn set ddata wedi'i mynegeio a gynhelir yn broffesiynol ac a gedwir ar system wybodaeth ddigidol briodol mewn fformatau testunol, graffig a map, fel y bo'n briodol.

Dylai fod systemau clir ar gyfer cyfeirio at wybodaeth ddiffiniol, statudol gyfredol a gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol a gedwir gan sefydliadau eraill a chael gafael ar y wybodaeth honno.

## 3.2 Terfynau Amser

Ni ddylai fod unrhyw derfynau amser ar y wybodaeth a gofnodir mewn CAH: dylai gynnwys data sy'n ymwneud â phob cyfnod, o'r gweithgarwch dynol cynharaf i'r presennol.

## 3.3 Terfynau Daearyddol

Diffinnir y rhain gan ffin weinyddol yr awdurdod lleol a gwmpesir gan CAH. Yn achos ardaloedd awdurdodau cynllunio lleol sy'n cynnwys arfordir, mae ymestyn cwmpas daearyddol CAH tua'r môr y tu hwnt i'r ffin weinyddol yn debygol o gynyddu cyfraniad yr awdurdod at brosesau Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol a chynllunio morol, yn ogystal â rhoi darlun mwy cyflawn o orffennol yr ardal. Er enghraifft, er mwyn cofnodi effaith erydu arfordirol neu gynnydd yn lefel y môr, sydd i'w priodoli i newid yn yr hinsawdd nawr ac yn y gorffennol, ar dreftadaeth ddiwylliannol. Fodd bynnag, bydd penderfyniadau o'r fath yn parhau i gael eu gwneud yn ôl disgresiwn awdurdodau cynllunio lleol.

Mae CBHC yn cynnal cofnod morwrol Cymru sy'n cynnwys cofnodion llongau ac awyrennau a gollwyd ar y môr, ac ardaloedd â photensial archeolegol mawr. Mae'r cofnod hwn yn rhan o Gofnod Henebion Cenedlaethol Cymru ac mae ar gael i'w ddefnyddio gan yr awdurdod cynllunio lleol ac fe'i defnyddir gan Lywodraeth Cymru wrth wneud gwaith cynllunio ar y môr.

## 3.4 Sicrhau bod Cynnwys y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol yn Gyfredol

Mae angen rheoli CAHau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu natur yr amgylchedd hanesyddol sy'n newid a'n dealltwriaeth o'i arwyddocâd yn gywir.[19] Rhaid i wybodaeth CAHau fod yn gywir, gan gynnwys:

- darganfyddiadau a dehongliadau newydd
- dynodiadau newydd a diwygiedig
- yr ymchwil a'r cyhoeddiadau diweddaraf
- cofnodion a chanlyniadau ymchwiliadau newydd
- newidiadau sylweddol i'r asedau hanesyddol a gofnodwyd eisoes.

Daw gwybodaeth o'r fath o amrywiaeth o ffynonellau, o ddarganfyddiadau ar hap gan aelodau o'r cyhoedd a darganfyddiadau annisgwyl gan berchenogion eiddo, datblygwyr a rheolwyr tir i ymchwiliadau systematig a wneir fel rhan o arolygon cenedlaethol, gwaith ymchwil a arweinir gan brifysgolion, gwaith maes a gwaith cofnodi a ariennir gan ddatblygwyr, prosiectau cymunedol neu ymchwil breifat.

Yn benodol, dylai awdurdodau cynllunio lleol sicrhau y caiff gwybodaeth am asedau treftadaeth a'r amgylchedd hanesyddol ehangach a gynhyrchir fel rhan o'r broses gynllunio ei hadneuo yn eu CAHau.

*Trapiau pysgod ger Poppit Sands yn Sir Benfro.*



© Hawlfraint y Goron, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

## 3.5 Casgliadau Cyfeirio Ategol

Mae angen i CAH gadw casgliadau o ddeunyddiau cyfeirio cyhoeddedig a chopïau gwaith o ddeunydd archifol sy'n ategu'r wybodaeth ddigidol a geir yn ei gronfa ddata. Mae gan gasgliadau cyfeirio ategol rôl werthfawr i'w chwarae o ran ateb ymholiadau. Dylid cadw a chynnal casgliadau o dan amodau amgylcheddol ac amodau storio priodol er mwyn eu diogelu yn yr hirdymor.

## 3.6 Adneuo Deunydd Archif Sylfaenol

Dylai deunydd archifol gwreiddiol a reolir neu a gaffaelir gan y CAH (lle nad yw'r sawl sy'n cynhyrchu'r data yn gyfrifol am eu hadneuo a/neu nad oes unrhyw opsiynau gorfodi ar gael) gael ei adneuo gydag archif achrededig megis Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru. Gall CBHC gynnig cyngor a dylid ymgynghori ag ef yn gynnar lle y bo'n bosibl.

*Gall gwaith newydd ddatgelu gwybodaeth newydd y dylid ei hychwanegu at y cofnodion amgylchedd hanesyddol.*



© Hawlfraint y Goron (2015), Cadw, Llywodraeth Cymru

*Gall ychwanegu cofebion rhyfel at gofnodion amgylchedd hanesyddol fod yn ddefnyddiol*



© Hawlfraint y Goron, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

# 4. Safonau Data

*Carnedd gron o ddechrau'r Oes Efydd yw Bryn Cader Faner yng Ngwynedd.*



© Hawlfraint y Goron (2015), Cadw, Llywodraeth Cymru

## 4.1 Cydymffurfio â Safonau Data Cenedlaethol y DU

Mae'n rhaid i'r wybodaeth a geir mewn CAH gydymffurfio â safonau data cenedlaethol cyfredol ar gyfer gwybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol.[20]

Mae CBHC yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu a chynnal safonau data yng Nghymru ac yn cynnull Gweithgor Safonau Data Amgylchedd Hanesyddol Cymru.

## 4.2 Rhannu Data

Dylai CAHau allu darparu data digidol, a'u derbyn a'u hymgorffori, mewn fformatau y bwriedir iddynt helpu i gyfnewid data rhwng systemau gwybodaeth cydnaws priodol. Yn benodol, dylent allu rhyngweithredu â systemau GIS corfforaethol a systemau cynllunio cefn swyddfa'r awdurdodau cynllunio lleol a gwmpesir ganddynt.

Mae'r Fframwaith ar gyfer Cofnodion sy'n Ymwneud ag Amgylchedd Hanesyddol Cymru wedi'i sefydlu rhwng prif ddeiliaid y cofnodion amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Mae'r fframwaith yn seiliedig ar egwyddorion mynediad hawdd, rhannu data a chydweithredu er mwyn galluogi sefydliadau sy'n cymryd rhan i gael y wybodaeth sydd ei hangen er mwyn diwallu eu hanghenion busnes. Disgwylir i CAHau gyfrannu at y camau gweithredu a'r blaenoriaethau a nodir yn y fframwaith.

# 5. Mynediad Cyhoeddus ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Mae adran 34 o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol sicrhau bod eu CAHau ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio ac ymateb i geisiadau rhesymol am gopïau o ran o'r cofnod. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol roi cyngor ar y wybodaeth a geir yn y cofnod a chymorth i adfer a deall y wybodaeth honno. O ganlyniad, mae'n rhaid i'w wybodaeth a gedwir mewn CAHau, gyda rhai eithriadau,[21] fod ar gael i'r cyhoedd.

Fel arfer mae defnyddwyr CAHau yn cynnwys datblygwyr, ymgynghorwyr cynllunio/amgylcheddol, ymgymerwyr statudol, perchenogion eiddo, rheolwyr tir, ffermwyr, ymchwilwyr academaidd, cymdeithasau lleol, haneswyr/archeolegwyr amatur, athrawon, myfyrwyr ac aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb — yn ogystal â gweithwyr proffesiynol ym maes yr amgylchedd hanesyddol sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd angen cyfryngu a dehongli cynnwys confensiynol a chynnwys ar-lein, gan ddibynnu ar y defnyddiwr.

Mae'n debyg y bydd gan bob defnyddiwr anghenion penodol, a fydd yn gofyn am lefelau gwahanol o gymorth a mynediad amrywiol o ran amser. Er mwyn sicrhau'r lefel uchaf bosibl o fynediad cyhoeddus, bydd angen amrywiaeth o drefniadau mynediad, gan gynnwys, er enghraifft, gyfleusterau ar gyfer ymwelwyr â'r CAH ac ar gyfer ymdrin ag ymholiadau dros y ffôn ac ymholiadau electronig.

*Tai arbennig yn Llanfairfechan, a gynlluniwyd gan H.L. North. Mae bellach yn ardal gadwraeth.*



© Hawlfraint y Goron (2015), Cadw, Llywodraeth Cymru

Dylai staff CAHau allu darparu gwasanaeth effeithiol i bob defnyddiwr, tra'n rheoli galwadau eraill ar eu hamser. Dylid cyhoeddi amser ymateb penodol ar gyfer ymholiadau a dylid ystyried mai hwn yw'r amser ymateb hwyaf a ganiateir. Dylai CAHau fynd ati i wella'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu i ddefnyddwyr drwy gasglu adborth a gweithredu arno.

Dylai awdurdodau cynllunio lleol fynd ati i hyrwyddo mynediad i CAHau. Mae'n arfer da datblygu rhaglen allgymorth sy'n hyrwyddo'r CAH ac yn annog pobl i wneud mwy o ddefnydd ohono. Mae hyn yn hanfodol i wneud y canlynol:

- nodi a thargedu cynulleidfaoedd newydd ar gyfer y CAH
- cadw ac annog defnyddwyr presennol CAHau
- creu cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan yn y gwaith o gynnal a gwella'r CAH
- datblygu synergeddau â gweithgareddau allgymorth a gyflawnir gan wasanaethau treftadaeth a gwasanaethau amgylcheddol eraill.

Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol gyfeirio at eu gwasanaethau CAH ar eu gwefan.

Dylid hefyd sicrhau bod cynnwys perthnasol ar-lein hefyd ar gael drwy borth Cymru Hanesyddol a gynhelir gan CBHC, a phyrth priodol eraill, megis Archwilio.[22]

*Caiff y cyhoedd fynediad at y Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol lleol yn swyddfeydd Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed.*



© Hawlfraint Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed

# 6. Darparu Gwasanaethau

*Gweithfeydd Haearn Clydach, ger Brynmawr; mae wedi ei gadw a'i arddangos er mwyn i'r cyhoedd gael deall a gwerthfawrogi hanes yr ardal.*



© Hawlfraint y Goron (2015). Cadw, Llywodraeth Cymru

## 6.1 Cynlluniau, Polisïau a Gwasanaethau

Er mwyn rheoli CAH yn effeithiol, mae'n rhaid i wasanaethau CAH ddatblygu cynlluniau a pholisïau perthnasol y cytunir arnynt ac a adolygir yn rheolaidd er mwyn cydymffurfio â'r safonau a'r meincnodau a nodir yn Atodiad 2.

## 6.2 Staff

Mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau CAH gyflogi staff curadol cymwys ac ymroddedig â chymwysterau priodol i lunio eu cofnod a'i ddiweddaru, a chyfathrebu'n effeithiol â'r cynulleidfaoedd amrywiol sy'n ei ddefnyddio.

Dylai'r staff gynnwys personél â'r cymwysterau a'r profiad sy'n briodol i gasglu, curadu a dehongli amrywiaeth eang o adnoddau gwybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol a chyfryngu mynediad iddynt.

Mae'n hanfodol cynnal sgiliau staff CAH fel y gallant ddarparu gwasanaethau gwybodaeth a gwasanaethau cynghori o ansawdd uchel. Felly, dylai datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a hyfforddiant fod ar gael iddynt.

## 6.3 Seilwaith

Mae'n rhaid darparu digon o le er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol y CAH o ddydd i ddydd, gan gynnwys darparu ar gyfer mynediad cyhoeddus ac ar gyfer storio adnoddau annigidol. Mae'n rhaid rhoi gweithdrefnau storio data, diogelwch a rheoli risg cadarn ar waith er mwyn diogelu rhag ymddygiad maleisus, ei ganfod a'i gywiro fel y gall technoleg a gwasanaethau hanfodol wrthsefyll heriau aflonyddol megis ymosodiadau seibr. Dylai fod gan bob eitem o feddalwedd ddogfennaeth system glir a chyfredol, yn arbennig meddalwedd bwrpasol.

# 7. Codi Ffioedd

*Cynlluniwyd Caffi Moranedd, Cricieth, gan Clough Williams-Ellis, mae'n adeilad rhestredig gradd II.*




© Hawlfraint y Goron (2015). Cadw, Llywodraeth Cymru

Mae'n rhaid darparu mynediad cyhoeddus i CAH am ddim. Fodd bynnag, mae adran 34 o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)[23] yn darparu ar gyfer codi ffioedd am wasanaethau sy'n gofyn am adnoddau ac yn eu defnyddio, sef:

- darparu copi o ran o'r CAH, megis atgynhyrchu a chyflenwi copïau o wybodaeth a gedwir yn y CAH
- rhoi cyngor a chymorth, megis gwasanaeth â blaenoriaeth a ddarperir gan staff CAH
- llunio dogfennau sy'n cynnwys gwybodaeth a gafwyd o'r CAH, megis llunio adroddiadau yn seiliedig ar ddadansoddiadau o gynnwys CAH.

Bwriedir i ffioedd adennill costau'r gwasanaethau hyn. Mae'n rhaid nodi polisïau codi ffioedd mewn polisi mynediad i gofnodion (ynghyd ag unrhyw delerau ac amodau defnydd eraill, gan gynnwys hawlfraint a threfniadau trwyddedu).

# 8. Cydymffurfiaeth

Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol fodloni eu hunain bod cynlluniau a pholisïau sy'n ymwneud â'u cofnod yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995[24]
- Deddf Diogelu Data 1998[25]
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000[26]
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004[27]
- Safonau'r Gymraeg[28]

Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol fodloni eu hunain bod polisïau ar gyfer rheoli eu cofnod yn cydymffurfio â chyfraith hawlfraint y DU.[29] Fel rheol gyffredinol, dylid sefydlu hawlfraint mewn perthynas â chynnwys CAH a'i diogelu mewn ffordd sy'n sicrhau y bydd y cyhoedd yn gallu gwneud defnydd anghyfyngedig ohono yn y dyfodol.

Yn ymarferol, daw cynnwys o amrywiaeth eang o ffynonellau. Mae'n rhaid hysbysu'r rhai sy'n cyfrannu gwybodaeth y bydd ar gael i'r cyhoedd a dylai hawlildiad perchenogaeth hawlfraint gael ei lofnodi lle bynnag y bo'n bosibl.

Bydd angen i CAHau ystyried hawlfreintiau a thrwyddedau trydydd partïon sy'n ymwneud â deunydd a gaffaelir ganddynt er mwyn osgoi eu torri.

*Mae gwrthgloddiau caer Coed y Bwynydd o'r Oes Haearn yn heneb gofrestredig.*



© Hawlfraint y Goron (2015), Cadw, Llywodraeth Cymru

# Atodiadau

## Atodiad 1: Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru

Yng Nghymru ar hyn o bryd mae pedwar CAH rhanbarthol a luniwyd ac a gynhelir gan y pedair ymddiriedolaeth archeolegol yng Nghymru (sef Clwyd-Powys, Dyfed, Morgannwg-Gwent a Gwynedd). Gyda'i gilydd, mae'r CAHau rhanbarthol hyn yn darparu catalog cynhwysfawr sy'n cynnwys tua 200,000 o gofnodion unigol o safleoedd archeolegol a hanesyddol a darganfyddiadau o bob cyfnod ledled Cymru.

Y pedwar CAH yng Nghymru yw disgynyddion uniongyrchol y cofnodion safleoedd a henebion a sefydlwyd yn y 1970au gan y pedair ymddiriedolaeth archeolegol yng Nghymru. Lluniwyd y cofnodion safleoedd a henebion er mwyn cynorthwyo rhaglenni gwaith yr ymddiriedolaethau ac mewn ymateb i'r ffaith nad oedd unrhyw wybodaeth archeolegol ar gael i berchenogion, datblygwyr a chynllunwyr a'r olion archeolegol a oedd yn cael eu colli o ganlyniad i hynny drwy ddatblygu trefol a gwledig.

Gyda'i gilydd, mae'r pedwar CAH hyn yn ymdrin yn gynhwysfawr â Chymru gyfan:

- CAH Clwyd-Powys (a gynhelir gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys) — Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam, Powys, rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, rhan o Gonwy)
- CAH Dyfed (a gynhelir gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed) — Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- CAH Morgannwg-Gwent (a gynhelir gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent) — Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Caerdydd, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Torfaen, Casnewydd a rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- CAH Gwynedd (a gynhelir gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd) — Ynys Môn, Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri a rhan o Gonwy.

Yn 2008, trosglwyddwyd perchenogaeth o'r CAHau rhanbarthol i bedair ymddiriedolaeth elusennol CAH. Fodd bynnag, mae'r CAHau yn parhau i gael eu rheoli a'u cynnal gan y pedair ymddiriedolaeth archeolegol yng Nghymru.

Mae mynediad cyhoeddus ar-lein i'r CAHau rhanbarthol ar gael drwy Archwilio.[30] Datblygwyd y system drwy bartneriaeth rhwng y pedair ymddiriedolaeth archeolegol yng Nghymru er mwyn darparu mynediad cyhoeddus ehangach i'r adnodd gwerthfawr hwn.




© Hawlfraint Ymddiriedolaeth archeolegol yng Nghymru

# Atodiad 2: Safonau a Meincnodau Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol

Mae'n rhaid i CAHau Cymru gyrraedd y safonau canlynol. Lluniwyd cyfres o feincnodau a ddefnyddir i asesu pob CAH. Datblygwyd y meincnodau gan CBHC ar ôl trafod â rhanddeiliaid allweddol.

Mae'r safonau yn ei gwneud yn ofynnol i CAHau fodloni meincnodau mewn pum maes allweddol, sef:

1. Archwilio
2. Cynnwys a chwmpas
3. Safonau data
4. Mynediad cyhoeddus ac ymgysylltu â'r cyhoedd
5. Darparu gwasanaethau

## 1. Archwilio

**Meincnod 1: Archwiliad pum mlynedd sy'n mesur y CAH a'i wasanaethau yn erbyn y meincnodau. Blaengynlluniau blynyddol ar gyfer gwella gwasanaethau ac ymdrin â sylwadau o adborth defnyddwyr ac adroddiad archwilio bob pum mlynedd.**

**Dangosyddion:**

a) Archwiliad o wybodaeth bob pum mlynedd er mwyn adolygu cydymffurfiaeth â meincnodau'r CAH, asesu ansawdd data a nodi anghenion o ran gwella.

b) Blaengynllun pum mlynedd sy'n nodi blaenoriaethau ar gyfer gwaith gwella yn seiliedig ar adborth defnyddwyr a chanlyniadau'r archwiliad o wybodaeth.

c) Dull o ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol a defnyddwyr gwasanaethau er mwyn datblygu blaengynlluniau.

## 2. Cynnwys a Chwmpas

**Meincnod 2: CAH sy'n cynnwys gwybodaeth am safleoedd, digwyddiadau a llyfryddiaethau sy'n cydymffurfio â gofynion adran 33 o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru).[31]**

**Dangosyddion:**

a) Data a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd.

b) Ymdriniaeth gynhwysfawr o adnodd yr amgylchedd hanesyddol.

c) System wybodaeth sy'n integreiddio data gofodol â gwybodaeth sy'n seiliedig ar destun, gwybodaeth ddigidol a gwybodaeth ar ffurf copi caled.

**Meincnod 3: Casgliad cyfeirio ategol o ddeunydd ar ffurf copi caled a deunydd digidol a gaiff ei gatalogio a'i reoli.**

**Dangosyddion:**

a) Mae'n rhaid cadw a chynnal deunydd cyfeirio ategol o dan amodau amgylcheddol priodol.

b) Mae'n rhaid croesfynegeio'r catalog o gasgliadau cyfeirio â'r cofnod cyfrifiadurol.

c) Dylid cynnwys rhaglen ar gyfer digideiddio deunydd sy'n cael ei reoli'n uniongyrchol gan y CAH mewn blaengynlluniau blynyddol lle y bo'n briodol.

**Meincnod 4: Datganiad o bolisi ar gyfer adneuo deunydd archif sylfaenol.**

**Dangosyddion:**

a) Dylid adneuo deunydd archif sylfaenol (digidol ac annigidol) a reolir neu a gaffaelir gan y CAH gydag archif achrededig megis Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru.

b) Bydd angen polisi gwaredu ar gyfer trosglwyddiadau fesul cam, gan gynnwys meini prawf amser.

## 3. Safonau Data

**Meincnod 5: Cydymffurfio â safonau data cenedlaethol.**

Diffinnir safonau data cenedlaethol gan broffil cydymffurfiaeth MIDAS Heritage ar gyfer cofnodion amgylchedd hanesyddol.[32] Mae gwaith mynegeio data o safon uchel a bodolaeth data a mapiau gofodol da yn hanfodol er mwyn chwilio (a chroeschwilio) CAH yn effeithiol. Mae'n hanfodol defnyddio terminoleg y cytunwyd arni yn genedlaethol. Mae INSCRIPTION[33] yn gasgliad o 'restrau geiriau' o derminoleg y cytunwyd arno a gynhelir neu a argymhellir gan y Fforwm ar Safonau Gwybodaeth ym maes Treftadaeth (FISH).[34] Hon yw'r ffynhonnell ddiffiniol o wybodaeth am y safonau terminoleg cenedlaethol yr argymhellir y dylid eu defnyddio ar y cyd â phroffil cydymffurfiaeth MIDAS Heritage.

**Dangosyddion:**

a) Cydymffurfiaeth â phroffil cydymffurfiaeth sylfaenol MIDAS Heritage fel y'i cymhwysir yng Nghymru ac â therminoleg y cytunwyd arni gan Weithgor Safonau Data Amgylchedd Hanesyddol Cymru.

b) Cydymffurfiaeth â safonau cenedlaethol ar gyfer data gofodol a chanllawiau ar arfer da o ran GIS.

c) Llawlyfr cofnodi ategol sy'n nodi rheolau, protocolau a safonau ar gyfer mewnbynnu data.

ch) Cymryd rhan yng Ngweithgor Safonau Data Amgylchedd Hanesyddol Cymru er mwyn datblygu, hyrwyddo a gweithredu safonau data yng Nghymru.

**Meincnod 6: Rhannu a chyfnewid data â sefydliadau perthnasol eraill.**

**Dangosyddion:**

a) Rhaglen reolaidd o rannu a chyfnewid gwybodaeth â darparwyr gwybodaeth eraill yn sector yr amgylchedd hanesyddol o dan delerau'r Fframwaith ar gyfer Cofnodion sy'n Ymwneud â'r Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru.

b) Darparu data yn rheolaidd i Cymru Hanesyddol mewn fformat y cytunwyd arno gyda CBHC.

## 4. Mynediad Cyhoeddus ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd

**Meincnod 7: Cyfleusterau a ddarperir ar gyfer gwasanaethau defnyddwyr gan gynnwys ymholiadau gan ymwelwyr ac ymholiadau drwy'r post, dros y ffôn ac ar-lein.**

**Dangosyddion:**

a) Ardal waith sydd â chyfarpar priodol ac a reolir ar gyfer defnyddwyr, gan gynnwys goruchwyliaeth gan staff a all ymateb i ymholiadau.

b) Trefniadau ar gyfer ymateb i ymholiadau gan ymwelwyr ac ymholiadau drwy'r post, dros y ffôn a thrwy e-bost o fewn amserau ymateb cyhoeddedig.

c) Mynediad cyhoeddus am ddim ar-lein i fynegai safleoedd cronfa ddata'r CAH o leiaf drwy'r rhyngrwyd.

**Meincnod 8: Dull effeithiol o gael adborth gan ddefnyddwyr sy'n ymweld, defnyddwyr o bell a defnyddwyr ar-lein.**

**Dangosyddion:**

a) Cofnod a gynhelir o ddefnyddwyr a'u mathau o ymholiadau sy'n deillio o ddefnydd lleol ac o bell (er enghraifft, defnydd o'r we, ymholiadau dros y ffôn ac ymweliadau gan ymchwilwyr).

b) Gwybodaeth a gesglir yn systematig am foddhad defnyddwyr.

**Meincnod 9: Gweithgareddau allgymorth sy'n seiliedig ar y CAH er mwyn hyrwyddo gwybodaeth ehangach a defnydd o'r CAH.**

**Dangosyddion:**

a) Datblygu a nodi gweithgareddau allgymorth er mwyn datblygu cynulleidfaoedd newydd a hyrwyddo defnydd ehangach o adnoddau yn seiliedig ar ymatebion defnyddwyr ac ymchwil i'r farchnad. Gallai hyn amrywio o fformatau cyfryngol a fformatau data newydd i arddangosfeydd, taflenni, llwybrau, diwrnodau agored, rhaglenni maes, ac ati.

## 5. Darparu Gwasanaethau

**Meincnod 10: Diffinnir polisïau a gwasanaethau yn glir ac maent ar gael i ddefnyddwyr yn electronig ac ar ffurf copi caled.**

**Dangosyddion:**

a) Polisïau ysgrifenedig sy'n nodi'r lefelau o wasanaeth:

- Y dibenion y cynhelir y CAH ar eu cyfer.
- Cwmpas, cwmpas daearyddol a chynnwys adnoddau gwybodaeth sydd ar gael drwy'r gwasanaeth (digidol, annigidol a chasgliadau cyfeirio).
- Y grwpiau proffesiynol a chyhoeddus y mae'n ceisio eu gwasanaethu.
- Mynediad i gofnodion, gan gynnwys trefniadau ar gyfer diwallu anghenion mathau gwahanol o ddefnyddiwr.
- Trefniadau ar gyfer adneuo deunyddiau archifol sylfaenol.

b) Cyhoeddi manylion am ddefnydd cyhoeddus, gan gynnwys oriau agor a pholisi codi tâl.

**Meincnod 11: Staff i reoli'r CAH a'i wasanaethau.**

**Dangosyddion:**

a) Dylai'r staff gynnwys personél â chymwysterau, profiad ac aelodaeth o gyrff proffesiynol perthnasol sy'n briodol i reoli amrywiaeth eang o adnoddau gwybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol.

b) Cynllun hyfforddi i helpu staff i barhau i ddatblygu.

**Meincnod 12: Cytundebau seilwaith a chymorth ar gyfer systemau hanfodol a chynllun parhad gwasanaeth.**

**Dangosyddion:**

a) Polisïau ar gyfer diogelu systemau data a gwybodaeth sy'n lliniaru bygythiadau cymwys.

b) Cynllun asesu risg a pharatoi ar gyfer argyfwng er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth.

c) Trefniadau ar gyfer cefnogi systemau gwybodaeth.

ch) Cofnod o wybodaeth a ddefnyddir gan ymholwyr sy'n ymweld ac ymholwyr o bell er mwyn nodi ac olrhain unrhyw achosion o gamddefnyddio gwybodaeth a ddarperir gan y CAH.

d) Adolygu cytundebau cymorth yn rheolaidd.

# Cyfeiriadau


1 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), Rhan 4, Adran 36

2 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), Rhan 4, Adrannau 33 a 34

3 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), Rhan 4, Adran 35

4 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), Rhan 4, Adrannau 33-36

5 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), Rhan 4, Adran 33

6 Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda i Gymru www.llyw.cymru/cadw

7 Coflein www.coflein.gov.uk

8 Cymru Hanesyddol www.historicwales.gov.uk

9 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), Rhan 4, Adran 33

10 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), Rhan 4, Adran 36

11 CBHC www.cbhc.gov.uk

12 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), Rhan 4, Adran 33

13 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, Adran 1

14 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, Adran 69

15 Deddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979, Adran 1

16 Deddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979, Adran 41A

17 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), Rhan 4, Adran 33 (3)

18 ICOMOS UK www.icomos-uk.org; Cyfoeth Naturiol Cymru www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

19 I gael deall yr arwyddocâd, gweler Egwyddorion Cadwraeth Cadw ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy, 2011

20 MIDAS Heritage – The UK Historic Environment Data Standard, v1.1

21 Eithriadau??

22 Mae Cymru Hanesyddol www.historicwales.gov.uk; Archwilio www.archwilio.org.uk yn rhoi mynediad i'r cyhoedd i'r pedwar CAH rhanbarthol a gynhelir gan ymddiriedolaethau archeolegol Cymru

23 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), Rhan 4, Adran 34

24 Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995

25 Deddf Diogelu Data 1998

26 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

27 Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004

28 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Gweinidogion Cymru, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) 2015

29 Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988

30 Archwilio www.archwilio.org.uk

31 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), Rhan 4, Adran 33

32 MIDAS Heritage compliance profile https://www.historicengland.org.uk/images-books/publications/midas-heritage/

33 INSCRIPTION

34 Forum on Information Standards in Heritage (FISH)

# Gwybodaeth Bellach

Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Polisi Cynllunio Cymru – Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol

MIDAS Heritage – The UK Historic Environment Data Standard, v1.1

INSCRIPTION

Forum on Information Standards in Heritage (FISH)

Porth Cymru Hanesyddol
www.historicwales.gov.uk

Archwilio – mynediad cyhoeddus i'r pedwar CAH a gynhelir gan ymddiriedolaethau archeolegol Cymru
www.archwilio.org.uk

# Cysylltiadau

**Llywodraeth Cymru**
Cadw, Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ

Ffôn 01443 336000
*cadw@wales.gsi.gov.uk*
*www.llyw.cymru/cadw*

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**
CBHC
Plas Crug
Aberystwyth
Ceredigion

Ffôn 01970 621200
*nmr.wales@rcahmw.gov.uk*
*www.cbhc.gov.uk*

**Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru**
*nmr.wales@rcahmw.gov.uk*
*www.coflein.gov.uk*

**Awdurdodau Cynllunio Lleol**
Gellir cysylltu â swyddogion cadwraeth awdurdodau cynllunio lleol drwy wefan yr awdurdod lleol perthnasol.

**Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru**
Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys
41 Stryd Lydan, Y Trallwng SY21 7RR

Ffôn 01938 553670
*trust@cpat.org.uk*
*www.cpat.org.uk*

**Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed**
Neuadd y Sir, 8 Stryd Caerfyrddin, Llandeilo SA19 6AF
Ffôn 01558 823121

*info@dyfedarchaeology.org.uk*
*www.dyfedarchaeology.org.uk*

**Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent**
Heathfield House, Heathfield, Abertawe SA1 6EL

Ffôn 01792 655208
*enquiries@ggat.org.uk*
*www.ggat.org.uk*

**Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd**
Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor LL57 2RT

Ffôn 01248 352535
*gat@heneb.co.uk*
*www.heneb.co.uk*

*Mae'r bont yng Nghrucywel, Powys, yn strwythur rhestredig gradd I ac yn heneb gofrestredig.*




© Hawlfraint y Goron (2015), Cadw, Llywodraeth Cymru

Cadw, Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
CaerdyddCF15 7QQ
01443 336000
*cadw@wales.gsi.gov.uk*
*www.llyw.cymru/cadw*

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda i Gymru.

OGL
© Hawlfraint y Goron 2015
ISBN 978-1-85760-369-9
WG24306

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau f3.0 Trwydded Llywodraeth Agored ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle nodir deunydd gan drydydd parti, rhaid cael caniatâd deiliad yr hawlfraint, gan gynnwys Cadw, Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed, Amgueddfa Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau amgen. Am fanylion, cysylltwch â Cadw yn y cyfeiriad uchod neu ffoniwch 01443 336000.